# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Hydref 2015**

**Amser: 09.19 - 12.20**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3270

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Elin Jones AC<br>Darren Millar AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol<br>Chris Tudor-Smith, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Sue Bowker, Llywodraeth Cymru<br><br>Dewi Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br><br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br><br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br><br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor.

1.1 Cytunodd y Pwyllgor i graffu ar y Bil Cymru drafft , yn enwedig ar yr effaith y gall y model cadw pwerau arfaethedig ei chael ar y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2015.

1.2 Er mwyn caniatáu amser i anghenion busnes eraill, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i aildrefnu trafodion Cyfnod 2 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) ar gyfer dydd Mercher, 25 Tachwedd. Mae hyn yn amodol ar fod y Cynulliad yn cytuno ar y penderfyniad ariannol, sydd wedi'i drefnu i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Tachwedd.

## 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod y materion allweddol wrth baratoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Trafododd yr Aelodau y materion allweddol wrth baratoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 18

4.1 Datganodd Lindsay Whittle y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae’n aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

4.2 Bu’r Gweinidog yn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau.

4.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- nodyn i’r Pwyllgor i egluro a fyddai tatŵio, fel y’i diffinnir yn y Bil, yn cynnwys triniaethau tebyg, fel ‘tashing’;
- nodyn ar sut y mae’n bwriadu diwygio Rhan 4 o’r Bil i ymestyn y darpariaethau o fewn y rhan hon i gynnwys tyllu’r tafod; a
- chopi o’r astudiaeth, y cyfeiriodd ati, am y gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghaliffornia ynghylch e-sigaréts.

## 5 Papurau i’w nodi

### 5.1 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2015

5.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

### 5.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol

5.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

### 5.3 Adroddiad Etifeddiaeth Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad: gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes

5.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o’r cyfarfodydd ar 5 Tachwedd ac 11 Tachwedd 2015.

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

6.2 Cynigiodd y Cadeirydd hefyd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfodydd ar 5 Tachwedd ac 11 Tachwedd 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi). Cytunwyd ar hyn.

## 7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod y dystiolaeth a’r materion allweddol

7.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod:

- y dystiolaeth a ddaeth i law; a’r

- materion allweddol sydd wedi codi yn ystod ei gyfnod yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil.